

NODYN YMARFER 10: ARCHWILIO DATGANIADAU ARIANNOL A RHEOLEIDD-DRA CYRFF Y SECTOR CYHOEDDUS YN Y DEYRNAS UNEDIG (DIWYGIWYD YN 2022)

GWAHODDIAD I GYFLWYNO SYLWADAU

Dyddiad cau ar gyfer ymateb: Dydd Gwener 16 Medi 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus (FfAC)¹ wedi cael ei ddynodi gan y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA) yn 'Gorff sy'n llunio Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir' at ddibenion cynnal a diweddarau Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig* (PN 10). O dan drefniadau 'Corff sy'n llunio Datganiad o'r Ymarfer a Argymhellir', mae'r FfAC yn gyfrifol am baratoi ac ymgynghori ar ddiwygiadau i PN 10 cyn ceisio cymeradwyaeth y CAA nad oes unrhyw beth yn y Nodyn Ymarfer sy'n anghyson â safonau archwilio nac amcanion ehangach y CAA.
2. Mae'r FfAC yn gwahodd sylwadau yn awr ar y drafft trafod sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon ac sy'n amlinellu'r PN 10 diwygiedig yn dilyn cytundeb gan y CAA i ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y newidiadau arfaethedig.

CEFNDIR

3. Mae PN 10 yn nodi sut y mae archwilywyr cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cymhwyso safonau archwilio i'w gwaith ar ddatganiadau ariannol. Nod y Nodyn Ymarfer yw cefnogi cysondeb wrth gymhwyso safonau archwilio gan hefyd gydnabod y fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol penodol sy'n berthnasol i archwiliadau o gyrff y sector cyhoeddus. Mae PN 10 hefyd yn rhoi arweiniad ynghylch y dull o archwilio rheoleidd-dra.
4. Mae'r Nodyn Ymarfer yn canolbwyntio ar yr archwiliadau o ddatganiadau ariannol ac felly nid yw'n berthnasol i waith archwilio yn y sector cyhoeddus ar, er enghraifft, drefniadau i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y defnyddir adnoddau. Mae gwaith o'r fath yn gorfod ateb gofynion penodol mewn Codau Ymarfer Archwilio perthnasol a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan yr asiantaethau archwilio cyhoeddus ledled y DU.
5. Cafodd PN 10 ei adolygu ddiwethaf yn 2020 ac mae angen sicrhau bod y Nodyn Ymarfer yn cael ei ddiweddarau i ystyried newidiadau i'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU) (ISAs (Y DU)):
 - a. Daw ISA (Y DU) 240 (Diwygiwyd ym mis Mai 2021) *Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll wrth archwilio datganiadau ariannol* i rym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2021 (sy'n cyfateb i flwyddyn ariannol 2022-23 ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus).

¹ Aelodau'r Fforwm yw Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO).

- b. Daw ISA (Y DU) 315 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2020) *Nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol* i rym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2021 (sy'n cyfateb i flwyddyn ariannol 2022-23 ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus). Mae'r deunydd presennol ar y safon hon yn fersiwn 2020 o PN 10 wedi cael ei ehangu i gynnwys enghreifftiau ychwanegol o ffactorau risg cynhenid a allai fod yn arbennig o berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus.
 - c. Mae'n ofynnol i systemau rheoli ansawdd sy'n cydymffurfio ag ISQM (Y DU) I *Rheoli ansawdd ar gyfer cwmnïau sy'n cynnal archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymïadau eraill o ran sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig* gael eu dylunio a'u rhoi ar waith erbyn 15 Rhagfyr 2022. Mae'n ofynnol bod y gwerthusiad o'r system rheoli ansawdd sy'n ofynnol gan baragraffau 53-54 o ISQM (Y DU) I yn cael ei gynnal o fewn un flwyddyn yn dilyn 15 Rhagfyr 2022.
 - d. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r fersiwn ddrafft o PN 10 (2022) i adlewyrchu'r safonau wedi'u diweddarau.
6. Mae'r adran ar ISA (Y DU) 320 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) *Perthnasedd wrth gynllunio a chynnal archwiliad* wedi cael ei ehangu i gynnwys arweiniad ychwanegol ac enghreifftiau ar gyfer sefyllfaoedd sy'n berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys lle mae gwerth asedau a/neu rwymedigaethau gros yn llawer uwch na gwerth cyfanswm gwariant ac incwm a lle gellid yn rhesymol ddisgwyl i gamddatganiadau o symiau llai na'r trothwy perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd ddylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.
7. Mae'r adran ar ISA (Y DU) 570 (Diwygiwyd ym mis Medi 2019) *Busnes gweithredol* yn cynnwys deunydd ychwanegol sy'n ailadrodd, ar gyfer endidau y mae'r fframwaith adrodd ariannol yn darparu ar gyfer mabwysiadu'r dybiaeth busnes gweithredol ar eu cyfer ar sail parhad disgwyliedig trefniadau i ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol:
 - a. nad yw parhad, neu fel arall, ym modolaeth yr endid a archwilir a'r cyllid ar ei gyfer, ynddo'i hun, yn berthnasol i waith yr archwilydd ar fusnes gweithredol; a
 - b. nad yw ansicrwydd ynghylch bodolaeth yr endid a archwilir a/neu gyllid ar ei gyfer yn y dyfodol yn creu ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â busnes gweithredol ar gyfer endidau o'r fath, ar yr amod nad yw'r ansicrwydd hwn yn ymestyn hefyd i ddarparu'r gwasanaethau yn y dyfodol.
8. Mae adran newydd wedi cael ei hychwanegu yn Rhan 1 sy'n rhoi arweiniad ynghylch cymhwyso Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y CAA yn y sector cyhoeddus.
9. Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys arweiniad ychwanegol ynghylch pennu trothwy perthnasedd ar gyfer y farn ynglŷn â rheoleidd-dra.
10. Yn dilyn y broses hon o'i ddiwygio yn 2022, mae'r FfAC yn bwriadu parhau i adolygu PN 10 yn rheolaidd i ystyried bob blwyddyn a oes angen ei ddiwygio ymhellach o ganlyniad i safonau newydd a datblygiadau mewn ymarfer archwilio:
 - a. Daw ISQM (Y DU) 2 *Adolygiadau ansawdd ymrwymïadau* ac ISA (Y DU) 220 (Diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2021) *Rheoli ansawdd ar gyfer archwiliad o ddatganiadau ariannol* i rym ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2022 (sy'n cyfateb i archwiliadau o ddatganiadau ariannol 2023-24 ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus).
 - b. Fe wnaeth y CAA gyhoeddi'r drafft trafod o'r fersiwn ddiwygiedig o ISA (Y DU) 600 *Ystyriaethau arbennig: Archwiliadau o ddatganiadau ariannol grwpiau (gan gynnwys gwaith*

archwilwyr cydrannol) ym mis Ebrill 2022. Cynigir y bydd yn dod i rym ar gyfer archwiliadau o ddatganiadau ariannol grwpiau ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 15 Rhagfyr 2023 (sy'n cyfateb i archwiliadau o ddatganiadau ariannol 2024-25 ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus).

11. Bydd rhifynnau pellach o PN 10 yn ymateb i newidiadau mewn safonau yn y dyfodol fel y bo'n briodol.

ASESU'R EFFAITH

12. Gan mai canllawiau i gefnogi arfer gorau yw Nodyn Ymarfer, a chan nad yw'n gyfarwyddol, nid yw'r FfAC wedi cwblhau asesiad ar wahân o'r effaith. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r Nodyn Ymarfer diwygiedig yn effeithio ar lefel yr ymdrech sy'n ofynnol gan archwilwyr wrth wneud eu gwaith dan safonau archwilio ac am bod lefel yr ymdrech sy'n ofynnol wrth wneud gwaith mewn perthynas â rheoleidd-dra, lle mae hyn yn ofynnol, yn unol ag ymarfer presennol.

GWAHODDIAD I GYFLWYNO SYLWADAU

13. Mae dwy ran i'r drafft trafod sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon:
Rhan 1: Cymhwyso safonau archwilio, rheoli ansawdd a moesegol
Rhan 2: Archwilio rheoleidd-dra
14. Er bod y rhannau hyn yn darparu'r prif gynnwys y bydd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn yn dymuno canolbwyntio arno, byddai hefyd o gymorth cael unrhyw sylwadau eraill ar y deunydd yn y PN 10 arfaethedig, gan gynnwys y rhestr termau.
15. Mae'r Atodiad wrth y ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r diwygiadau arfaethedig i PN 10.
16. Fe'ch gwahoddir i ddarparu sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau ymgynghori canlynol, ond ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill yr ydych chi'n meddwl y byddai o gymorth i'r FfAC eu hystyried wrth gwblhau'r diwygiadau arfaethedig i PN 10 os gwelwch yn dda.
17. Croesewir sylwadau gan yr holl bartion â buddiant. Mae'r FfAC yn gwahodd sylwadau'n arbennig gan y rhai sy'n cynrychioli defnyddwyr datganiadau ariannol y sector cyhoeddus.

CWESTIYNAU YMGYNGHORI

Cwestiwn 1: Mae'r fersiwn hon o Nodyn Ymarfer 10 yn cynnwys newidiadau i'r adran ar ISA (Y DU) 320 (Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016) *Perthnasedd wrth gynllunio a chynnal archwiliad* sy'n ymwneud â phennu perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd a'r lefel(au) perthnasedd a gymhwysir i ddosbarthiadau penodol o drafodion, balansau cyfrifon neu ddatgeliadau lle gellid yn rhesymol ddisgwyl i gamddatganiadau o symiau llai na'r trothwy perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd ddylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol. Darperir arweiniad pellach hefyd yn Rhan 2 ar bennu trothwy perthnasedd ar wahân ar gyfer y farn ynglŷn â rheoleidd-dra. **Ydych chi'n ystyried bod y drafft diwygiedig yn darparu arweiniad priodol a defnyddiol ynghylch cymhwyso perthnasedd i'r archwiliad o ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra yn y sector cyhoeddus? Pa newidiadau ddylai gael eu gwneud, os o gwbl?**

Cwestiwn 2: Mae'r adran flaenorol ar ISQC (Y DU) I wedi cael ei disodli gan arweiniad ynghylch cymhwyso ISQM (Y DU) I yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys ar gyfer archwiliadau a roddwyd ar gontract allanol. **A yw'r adran hon yn darparu arweiniad priodol a defnyddiol ynghylch trefniadau rheoli ansawdd ar gyfer archwilwyr statudol a chontractwyr archwilio endidau'r sector cyhoeddus? Pa newidiadau ddylai gael eu gwneud, os o gwbl?**

Cwestiwn 3: Mae'r adran ar ISA (Y DU) 315 yn cynnwys enghreifftiau ychwanegol o ffactorau risg cynhenid a all fod yn arbennig o berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus. **A yw'r ffactorau risg cynhenid enghreifftiol hyn yn berthnasol i archwiliadau yn y sector cyhoeddus ac a ydynt yn cwmpasu'r meysydd cyffredin lle ceir risgiau cynhenid sy'n ymwneud yn arbennig ag endidau'r sector cyhoeddus?**

Cwestiwn 4: Mae'r adran ar archwilio rheoleidd-dra'n adlewyrchu ymarfer presennol yn y sector cyhoeddus. **Ydych chi'n ystyried bod yr arweiniad yn Rhan 2: Archwilio rheoleidd-dra yn briodol, yn ddigonol ac yn berthnasol i bob rhan o'r sector cyhoeddus? Os nad ydych, pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn cael eu gwneud a pham?**

Cwestiwn 5: Mae'r drafft ymgynghori'n cynnwys newidiadau eraill, a nodir yn yr Atodiad isod. **A yw'r newidiadau eraill sydd wedi cael eu cynnig yn cyfrannu at yr amcan, sef darparu arweiniad defnyddiol a phriodol ar gyfer archwilwyr y sector cyhoeddus? Os nad ydynt, sut ellid gwella'r rhain?**

Cwestiwn 6: **A oes unrhyw newidiadau a fyddai'n briodol yn eich tyb chi? Os felly, pa newidiadau hoffech chi eu gweld yn cael eu gwneud a pham?**

Cwestiwn 7: Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n darparu ar gyfer peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru a bod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. **Ydych chi'n ystyried bod unrhyw beth yn y drafft ymgynghori hwn sy'n tansilio'r gofynion hyn? Ydych chi'n ystyried bod unrhyw ddiwygiad y gellid ei wneud i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg?**

CYFLWYNO SYLWADAU AR Y CYNIGION

18. Mae'r FfAC wedi sefydlu tîm prosiect i ddatblygu'r diwygiadau i PN 10. Byddai'n well gan dîm prosiect FfAC gael llythyrâu sy'n cynnwys sylwadau ar ffurf electronig sy'n hwyluso "copio a gludo". Gellir anfon y rhain trwy'r e-bost i:

PracticeNote10@public-audit-forum.org.uk

neu

NodynYmarfer10@public-audit-forum.org.uk

19. Dylid anfon ymatebion fel eu bod yn dod i law **yn ddim hwyrach na 5pm ar ddydd Gwener 16 Medi 2022**. Byddir yn ystyried bod yr holl sylwadau yn rhai ar gyfer y cofnod cyhoeddus oni ofynnir yn wahanol. Mae'r FfAC yn bwriadu cyhoeddi testun yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys enwau'r sefydliadau neu unigolion a gyflwynodd ymatebion, a hynny ar ei wefan, <https://www.public-audit-forum.org.uk/>.
20. Gellir darparu ymatebion i'r ymgynghoriad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

ATODIAD: CRYNODEB O'R NEWIDIADAU ERS FERSIWN 2020

Adran	Diweddariadau
Cyffredinol	<p>Wedi dileu rhai paragraffau sy'n ddyfyniadau air am air o ddeunydd yn ISAs (Y DU).</p> <p>Mân newidiadau o ran teipograffeg a fformatio.</p> <p>Mae rhifau'r paragraffau wedi cael eu diweddarau.</p>
Tudalen y cynnwys	Wedi'i diweddarau ar gyfer newidiadau eraill i'r cynnwys
Rhagair	Wedi diwygio'r sylwebaeth ar y diweddariadau a wnaed ers y diwygiad blaenorol i PN 10
Rhan I	
Enw	Enw Rhan I wedi'i newid i 'Cymhwyso safonau archwilio, rheoli ansawdd a moesegol'.
ISQM (Y DU) I	<p>Wedi diwygio'r deunydd blaenorol ar ISQC (Y DU) I i adlewyrchu'r safon sydd wedi'i disodli, sef ISQM (Y DU) I.</p> <p>Wedi ychwanegu arweiniad ynghylch sut y caiff ymrwymadau ar contract allanol eu cynnwys mewn trefniadau rheoli ansawdd.</p> <p>Wedi egluro bod contractwyr archwilio'n 'ddarparwyr gwasanaeth' dan ISQM (Y DU) I ac wedi awgrymu bod contractwyr archwilio'n darparu adroddiad darparwr gwasanaeth ar eu system rheoli ansawdd ar gyfer archwilydd statudol.</p> <p>Wedi gwneud y cyfeiriad presennol y "gall" archwilydd statudol gael sicrwydd ynghylch ansawdd gan contractwyr yn fwy pendant.</p> <p>Wedi ychwanegu arweiniad ynghylch camau gweithredu i'w cymryd gan archwilydd statudol lle mae'n canfod diffygion yng ngwaith y contractwr archwilio.</p> <p>Wedi diwygio arweiniad ynghylch penderfynu a yw adolygiad ansawdd ymrwymiad yn ymateb priodol i risgiau o ran ansawdd ar gyfer endidau mawr yn y sector cyhoeddus a chanddynt broffil cyhoeddus uchel.</p> <p>Wedi ychwanegu arweiniad ynghylch y modd y mae asiantaethau archwilio cenedlaethol yn cymhwyso gofynion ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol yn derfynol ac yn weithredol am y system rheoli ansawdd.</p>
ISA (Y DU) 240	<p>Wedi diwygio'r deunydd i adlewyrchu'r modd y diwygiwyd y safon ym mis Mai 2021.</p> <p>Wedi ychwanegu arweiniad ar y cydadwaith rhwng cyfrifoldebau sy'n ymwneud â thwyll a rheoleidd-dra a therminoleg.</p>
ISA (Y DU) 315	<p>Wedi diwygio'r deunydd i adlewyrchu'r modd y diwygiwyd y safon ym mis Gorffennaf 2020.</p> <p>Wedi ychwanegu enghreifftiau o ffactorau risg cynhenid a allai fod yn arbennig o berthnasol i endidau'r sector cyhoeddus.</p>

	<p>Wedi estyn yr arweiniad presennol ynghylch y sefyllfa lle mae'n ofynnol i endidau weithio i derfynau blynyddol ar adnoddau i gynnwys gwariant cyfalaf a risgiau o gamddosbarthu hefyd.</p>
ISA (Y DU) 320	<p>Wedi ehangu'r arweiniad ac enghreifftiau dangosol ynghylch pennu'r lefel neu lefelau perthnasedd a gymhwysir i ddsbarthiadau penodol o drafodion, balansau cyfrifon neu ddatgeliadau lle gellid yn rhesymol ddisgwyl i gamddatganiadau o symiau llai na'r trothwy perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd ddylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.</p> <p>Wedi amlygu presenoldeb enghreifftiau yn ISAs (Y DU) o sefyllfaoedd pan all gwerthusiad yr archwilydd o ba eitemau sy'n berthnasol amrywio rhwng gwahanol feysydd o fewn y datganiadau ariannol.</p> <p>Wedi ychwanegu sylwebaeth ar y sefyllfa lle mae gan endidau'r sector cyhoeddus asedau a/neu rwymedigaethau gros y mae eu gwerth yn uwch o lawer na gwerth cyfanswm gwariant ac incwm.</p>
ISA (Y DU) 570	<p>Wedi ychwanegu paragraffau'n egluro, ar gyfer archwilyddyr sy'n cymhwyso'r dull 'darparu gwasanaeth yn barhaus', bod gweithdrefnau asesu risg a gwerthusiad o asesiad y rheolwyr ar fusnes gweithredol yn seiliedig ar barhad trefniadau i ddarparu gwasanaethau, nid ar barhad bodolaeth yr endid a archwilir a chyllid ar ei gyfer.</p> <p>Wedi egluro nad yw ansicrwydd ynghylch bodolaeth yr endid a archwilir a/neu gyllid ar ei gyfer yn y dyfodol nad yw'n ymestyn i ddarparu'r gwasanaethau yn y dyfodol yn creu ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â busnes gweithredol.</p>
ISA (Y DU) 600	<p>Wedi ychwanegu'r opsiwn i gymhwyso'r arweiniad presennol ynghylch adnabod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar gyfer datganiadau ariannol cyfun sy'n cynnwys cydrannau heb riant i fathau eraill o archwiliad grŵp lle nad yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu.</p>
Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019	<p>Wedi ychwanegu adran newydd ar ddiwedd Rhan I ar Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y CAA.</p>
Rhan 2	
Perthnasedd ar gyfer yr archwiliad o reoleidd-dra	<p>Wedi ychwanegu enghreifftiau o sefyllfaoedd pan all yr archwilydd, gan ddibynnu ar ei grebwyll proffesiynol, bennu trothwy perthnasedd ar gyfer yr archwiliad o reoleidd-dra sy'n wahanol i'r un ar gyfer y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd</p>